**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol a Chadernid Ariannol

**Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2024 am 2.00pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| P N Bentu | S Joy | E T Kirchner |
| F D O'Brien | L V Walton | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Caritas Adere | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Emily-Jayne Davies | Swyddog Polisi Strategol |
| Rachael Davies | Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Wasanaethau |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid/Swyddog Adran 151 |
| Lee Wenham | Pennaeth Cyfathrebu a Chynnwys Cwsmeriaid |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd D H Hopkins - Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad
Y Cynghorydd A S Lewis - Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: Dim.

---

## 23 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 24 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol a Chadernid Ariannol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir, yn amodol ar gofnodi presenoldeb y Cynghorydd S Joy.

**25 Cynnydd Rhaglen Trawsnewid y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol - Datblygu Arweinyddiaeth a Rheoli.**

Cyflwynodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Wasanaethau adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn manylu ar waith Rhaglen Trawsnewid y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol mewn perthynas â'r thema datblygu Arweinyddiaeth a Rheoli.

Cafodd Strategaeth y Gweithlu ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Hydref 2022 ar ôl cyfnod o ddylunio ac ymgynghori â rhanddeiliaid yn ystod 2022.

Roedd Strategaeth y Gweithlu 2022-2027 yn cynnwys pedair thema allweddol i ysgogi diwylliant a gwelliant sefydliadol dros oes y strategaeth, gan gyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2023-2028, *'Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy'.*

Mae'r achos busnes Rhaglen Trawsnewid y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn cyd-fynd â Strategaeth Gweithlu'r Cyngor 2022-27. Roedd y rhaglen yn cynnwys prosiectau a fydd yn cyflawni nodau strategol Strategaeth y Gweithlu a dyheadau trawsnewid cyffredinol y Cynllun Corfforaethol.

Rhoddodd y Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Gwasanaethau fanylion am y prosiectau a gyflwynwyd yn y flwyddyn gyntaf a'r prosiectau a fyddai'n cael eu trin dan y cam datblygu eilaidd yn y blynyddoedd i ddod.

Nododd yr Aelodau:

- y ddau faes gwaith a chynnwys allweddol dan y rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth.
- Cyllid.
- Gweithio mewn partneriaeth â Choleg Gŵyr.
- Manylion y rhaglen garfan nesaf.
- Cynnydd gyda'r gweithlu sy'n barod at y dyfodol.
- Rhaglen Datblygu Rheolaeth Lefel 4/5 y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM)
- Cynnydd wrth ehangu'r broses o gyflwyno Lefel 3 yr ILM a Lefel 2 yr ILM ar gyfer gweithwyr.
- Cyflwyno Dadansoddiad Anghenion Datblygu a'i fanteision.
- Amserlenni ar gyfer y datblygiad arweinyddiaeth a rheolaeth ehangach a'r dadansoddiad o anghenion datblygu.

Byddai adroddiad i Arweinyddiaeth a drefnwyd ar gyfer mis Chwefror yn rhoi dadansoddiad llawn o'r holl weithgarwch Datblygu Sefydliadol a oedd ar waith yn ogystal â phosibiliadau newydd y gellid eu hystyried ar gyfer 2024/25.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r swyddog, a ymatebodd yn briodol.

Llongyfarchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad a'r Pwyllgor â’r Pennaeth AD a'r Ganolfan Wasanaethau am y gwaith rhagorol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Ganolfan Wasanaethau ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad am eu mewnbwn am yr adroddiad addysgiadol.

## 26 Y Diweddaraf am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 'adroddiad gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i baratoi ar gyfer cyfrannu at gynigion arbedion yn y dyfodol.

Ar 26 Medi 2023 derbyniodd Pwyllgor Trawsnewid y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadernid Ariannol adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth gefndir am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Roedd yr adroddiad yn rhoi'r cefndir ynghylch pam y cynhyrchwyd y CATC a beth yw'r broses ar gyfer creu a diweddaru'r cynllun.

Roedd y CATC presennol ynghlwm wrth adroddiad mis Medi er gwybodaeth. Ers hynny roedd cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i adolygu a diweddaru'r cynllun a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2023. Roedd hyn wedi arwain at restr newydd o bwysau cyllidebol a chynigion er mwyn bodloni'r bwlch ariannu cyfatebol.

Yn dilyn yr adolygiad a'r diweddariad i'r CATC, cynhyrchwyd cyfres o gynigion cyllideb wedi'u diweddaru. Cafodd y set hon o gynigion ei hystyried gan y Cabinet ar 12 Ionawr 2024 ac yn dilyn penderfyniad y Cabinet, mae'r cynigion yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Roedd yr adroddiad i'r Cabinet wedi'i atodi fel Atodiad A i'r adroddiad hwn, er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried.

Byddai'r adroddiad a'r diwygiadau dilynol yn dilyn ymgynghoriad yn sail i'r gyllideb refeniw flynyddol ac adroddiadau CATC i'r Cabinet ym mis Chwefror, lle byddai'r Cabinet yn rhoi ystyriaeth iddynt cyn argymell yr adroddiadau Cyllideb a CATC terfynol i'r Cyngor ym mis Mawrth.

Er bod y pwyslais yn yr adroddiad Cynigion Cyllidebol yn tueddu i fod ar sut y byddai'r bwlch yn y gyllideb yn cael ei ariannu, felly ar ble y gellid gwneud arbedion, nodwyd bod gwerth yr arbedion yn gymharol fach - mae'r gyllideb gros dros £870m ac amcangyfrifir bod gwerth yr arbedion dros 4 blynedd y CATC yn £56m (tua 6%).

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 12 Ionawr 2024 a byddai'n cau ar 11 Chwefror 2024. Byddai croeso mawr i unrhyw ymateb gan y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Corfforaethol a Chadernid Ariannol a byddai'n cael ei ymgorffori yn yr adroddiadau terfynol i'r Cabinet a'r Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Adran 151 am yr adroddiad addysgiadol.

**27 Cynllun Gwaith.**

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2023-2024.

Nodwyd bod y Pwyllgor wedi gorffen ei waith ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023-2024.

**Penderfynwyd:**

1) Canslo'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 27 Chwefror 2024.
2) Y bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei ystyried yng nghyfarfod terfynol y Pwyllgor ar 23 Ebrill 2024.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.31pm

**Cadeirydd**